

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Newport Road Dental Clinic, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 16 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 16 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd Profiad y Claf	8
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	20
	Atodiad C - Cynllun gwella	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Newport Road Dental Clinic, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 16 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Newport Road Dental Clinic yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Roedd gwybodaeth am hylendid y geg i blant ac oedolion ar gael yn yr ardaloedd aros.

Dylai'r practis fyfyrion ar yr adborth gan gleifion a'i gwneud yn haws i gleifion gael apwyntiadau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi proses fwy strwythuredig ar waith i fynd ati i geisio barn cleifion, fel rhoi holiaduron neu ffurflenni adborth iddynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar a oedd yn gwarchod eu hurddas.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis mewn cyflwr da i bob golwg ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau yr oedd wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal glinigol yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Gwnaethom nodi rhai gwelliannau yr oedd eu hangen er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhaid i un aelod o'r staff ymgymryd â hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol cyn gynted â phosibl.

- Mae angen ailgyflenwi'r cyfarpar dadebru brys a sefydlu rhestr wirio wythnosol er mwyn sicrhau bod cyflenwad llawn ar gael bob amser, ei fod mewn cyflwr da ac nad yw dyddiadau defnyddio'r eitemau unigol wedi mynd heibio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i Ddeintyddfa 2 gael ei thacluso, ei threfnu a'i hailgyflenwi ag offer deintyddol priodol a digonol cyn cael ei defnyddio i drin cleifion.
- Dylai'r gegin gael ei glanhau'n drylwyr a dylid cael gwared ar unrhyw eitemau ac offer storio diangen.
- Rhaid i gyfarpar a deunyddiau glanhau gael eu storio mewn cwpwrdd penodol ar wahân y gellir ei gloi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith i gefnogi'r staff.

Ar adeg yr arolygiad, roedd prinder staff yn y practis, ac felly nid oedd prosesau ar waith i reoli'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Rhaid i'r prosesau hyn gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn parhau i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhaid cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol cyn gynted â phosibl ac yna rhaid llunio rhestr o archwiliadau clinigol rheolaidd fel rhan o raglen o lywodraethu clinigol parhaus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 13 o holiaduron wedi'u cwblhau. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn, ond lle y bo'n berthnasol, mae canlyniadau'r holiadur yn ymddangos drwy'r adroddiad cyfan.

Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd. Nododd bron bob un o'r cleifion fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Yn fy marn i, mae'r practis yn dda iawn.”

“Mae'r gofal a'r cyngor yn foddhaol.”

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd mewn ymateb i COVID-19. Roedd posterï'n cael eu harddangos i atgoffa cleifion i gadw pellter o ddau fetr ac roedd bylchau rhwng y cadeiriau yn yr ardaloedd aros. Dywedwyd wrthym fod ffurflenni sgrinio COVID-19 yn cael eu rhoi i gleifion cyn eu hapwyntiad a gofynnir i unrhyw un sydd â symptomau beidio â dod i'w apwyntiad. Mae'n ofynnol i gleifion sy'n cael apwyntiad brys gwblhau ffurflen sgrinio COVID-19 pan fyddant yn cyrraedd.

Roedd gwybodaeth i gleifion am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Fodd bynnag, yn ystod ein

hadolygiad o gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd gwybodaeth hybu iechyd y geg (e.e. cyngor ar roi'r gorau i smygu) yn cael ei rhoi i gleifion pan oedd angen gwneud hynny.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roedd drws y ddeintyddfa yn cael ei gadw ar gau yn ystod triniaethau. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu dod ag aelodau o'r teulu neu ffrindiau i fod yn ddehonglwyr er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau iaith a helpu i sicrhau bod cleifion yn deall pob agwedd ar eu gofal a'u triniaeth.

Roedd ystod dda o wybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r cleifion yn Gymraeg. Fodd bynnag, nododd rhai cleifion yn eu holiaduron mai Cymraeg oedd eu dewis iaith, ond na allent siarad Cymraeg yn ystod eu hapwyntiad "gan nad oedd unrhyw siaradwr Cymraeg yno". Rhaid i'r practis ystyried y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg lle bynnag y bo modd.

Gwelsom fod y naw egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu cynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion sydd ar gael yn yr ardal aros. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros.

Roedd ffolder gwybodaeth i gleifion ar gael i'r cleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol. Ar nodyn cadarnhaol, roedd yr holl wybodaeth yn y ffolder yn ddwyieithog.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos fersiynau Cymraeg a Saesneg o dystysgrifau cofrestru AGIC.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan fydd angen triniaeth arnynt, a bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd prosesau cynllunio triniaethau nac opsiynau triniaeth bob amser yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei dogfennu i roi tystiolaeth bod cleifion wedi cael digon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Awgrymodd rhai cleifion:

“Stopio canslo apwyntiadau.”

“Cynnig apwyntiad arall pan fydd un yn cael ei ganslo.”

“Oriau agor ychwanegol.”

Dylai'r practis ystyried yr adborth hwn a gwella gallu'r cleifion i gael apwyntiadau.

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym, lle bo angen triniaeth frys ar gleifion yn ystod oriau gwaith, y cânt eu gwahodd i'r practis ar yr un diwrnod i gael eu gweld gan y deintydd lle bynnag y bo modd. Caiff unrhyw gleifion y mae angen gofal brys arnynt y tu allan i oriau eu cyfeirio at Linell Gymorth Ddeintyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd gwybodaeth a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallant gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau yn cael ei harddangos yn yr ardal aros ac wrth y brif fynedfa. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm clinigol wedi holi ynghylch eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth gan gadarnhau eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu dogfennu ym mhob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau proffesiynol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau ar waith i ddangos ei ymrwymiad i sicrhau bod yr un cyfleoedd ar gael i bawb a bod pawb yn cael yr un driniaeth deg. Roedd y rhain yn cynnwys polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, polisi urddas a pharch a pholisi bwlio ac aflonyddu.

Nododd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn yr holiaduron nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r holl gyfleusterau yn y practis ar y llawr gwaelod ac maent yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl ag anawsterau symudedd. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y toiledau yn fach ac felly nad oeddent yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi mewn llyfr cwynion a nodwyd gennym nad oedd y practis wedi cael llawer o gwynion yn ddiweddar.

Roedd y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder ffurfiol am eu gofal wedi'i chynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Nodwyd gennym y byddai'r weithdrefn yn galluogi'r staff i ymdrin ag unrhyw gwynion o'r fath yn effeithiol ac yn amserol mewn ffordd a oedd yn gyson â chanllawiau Gweithio i Wella'r GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd poster a oedd yn cynnwys gwybodaeth am broses Gweithio i Wella hefyd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros.

Gall y cleifion gwblhau adolygiadau ar-lein am eu profiad yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y staff yn edrych ar y rhain yn rheolaidd er mwyn monitro barn y cleifion. Fodd bynnag, rhaid cynnig cyfle i gleifion nad oes ganddynt fynediad ar-lein i roi adborth am eu profiadau hefyd. Rhaid i'r practis gyflwyno proses fwy

strwythuredig i fynd ati'n weithredol i geisio barn cleifion, fel dosbarthu holiaduron neu ffurflenni adborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag amrywiol asesiadau risg, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd diffoddwyr tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol. Roedd arwyddion yn dangos lle roedd yr allanfeydd argyfwng ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd gan y practis weithdrefn parhad busnes mewn argyfwng fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau a oedd yn nodi'r mesurau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe bai argyfwng neu drychineb naturiol.

Gwelsom fod laeth yn cael ei storio'n amhriodol yn yr oergell a oedd yn cael ei defnyddio i storio deunyddiau clinigol. Rhaid i laeth gael ei storio mewn oergell ddomestig ar wahân.

Roedd cegin y staff yn annhaclus yr olwg ac nid oedd mor lân â gweddill y practis. Dylai'r cegin gael ei glanhau'n drylwyr a dylid cael gwared ar unrhyw eitemau ac offer storio diangen.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod pob ardal i gleifion yn y practis yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn. Cytunodd pob claf hefyd fod gweithdrefnau i gydymffurfio â gofynion COVID-19 yn amlwg iawn yn y practis.

Dywedwyd wrthym mai'r staff sy'n gyfrifol am lanhau'r practis. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y dylid cadw amserlenni glanhau er mwyn dogfennu a chefnogi'r trefniadau glanhau. Nodwyd gennym hefyd fod cyfarpar glanhau yn cael ei storio yn ystafell y staff. Rhaid i gyfarpar a deunyddiau glanhau gael eu storio mewn cwpwrdd penodol ar wahân y gellir ei gloi.

Roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar waith a oedd yn amlinellu'r mesurau sydd ar waith i sicrhau safon dda o reoli heintiau yn y practis. Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r gwiriadau diogelwch adeg dechrau'r awtoclaf ac ar ddiwedd y dydd.

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Nodwyd gennym nad oedd cyfleuster golchi dwylo ar wahân yn yr ystafell. Rhaid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau y gall y staff olchi eu dwylo ar wahân ar ôl cwblhau pob cam o'r broses ddihalogi yn unol â chanllawiau arferion gorau.

Gwelsom fod contract ar waith â chwmni rheoli gwastraff i waredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd casglu a gwaredu gypswm yn rhan o'r contract. Nodwyd gennym hefyd nad oedd contract ar waith â'r cyngor lleol i waredu gwastraff (cartref) nad oedd yn beryglus.

Dywedwyd wrthym nad oedd archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad yn gofyn iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a nodwyd gennym yr oedd angen eu gwneud ar unwaith a'r camau unioni a gymerwyd yn [Atodiad B](#).

Gwelsom yn y cofnodion hyfforddiant fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru yn cael

eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis.

Roedd rhestr wirio ar waith i edrych i weld a oedd dyddiad defnyddio unrhyw gyffuriau brys wedi mynd heibio ac i archebu rhagor. Fodd bynnag, nid oedd rhestr wirio debyg ar waith i sicrhau bod cyflenwad llawn o'r cyfarpar brys, ei fod yn dal i fod mewn cyflwr da ac nad oedd dyddiadau defnyddio'r eitemau unigol wedi mynd heibio. O ganlyniad, gwelsom fod dyddiad defnyddio rhai o'r eitemau o gyfarpar brys wedi mynd heibio, a bod rhai eitemau sydd ar y rhestr o gyfarpar a argymhellir gan Gyngor Dadebru'r DU ar goll. At hynny, ni allem gael sicrwydd ar ddiwrnod yr arolygiad bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-anadlol yn ystod y 12 mis diwethaf. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a nodwyd gennym yr oedd angen eu gwneud ar unwaith a'r camau unioni a gymerwyd yn [Atodiad B](#).

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw feddyginiaethau yn cael eu dosbarthu yn rheolaidd ar y safle. Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pe bai angen un.

Gwelsom fod dyddiad defnyddio rhai eitemau clinigol a oedd yn cael eu storio yn yr oergell wedi mynd heibio. Rhaid i'r practis sicrhau bod eitemau o'r fath yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dyddiad defnyddio yn gyfredol a'u bod yn effeithiol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn gyfredol ac yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Dywedwyd wrthym mai Deintyddfa 1 oedd y brif ddeintyddfa a ddefnyddir gan gleifion. Gwelsom fod Deintyddfa 1 yn drefnus, yn lân ac yn daclus a'i bod yn cynnwys digon o offer deintyddol a oedd mewn cyflwr da.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig, ar adegau prin, fod cleifion hefyd yn cael eu trin yn Neintyddfa 2. Fodd bynnag, gwelsom fod Deintyddfa 2 yn annhaclus, fod angen i'r droriau gael eu glanhau a'u trefnu, ac nad oedd digon o offer deintyddol ar gael. Dywedwyd wrth y rheolwr cofrestredig na ddylai Deintyddfa 2 gael ei defnyddio i drin cleifion nes bod yr holl broblemau hyn wedi cael eu datrys.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r gyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio diweddaraf.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben a'r ffolder wybodaeth i gleifion ac roeddent yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom dystiolaeth y byddai'r staff yn cael arweiniad a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen ac y byddent yn defnyddio hyn i ddiweddarau polisïau'r practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac i fodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am dystiolaeth o'r prosesau a oedd ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau clinigol a roddir i gleifion gan y practis. Cawsom wybod nad oedd unrhyw archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal yn ddiweddar.

Er y gellir ystyried bod rhai archwiliadau clinigol yn ddymunol, megis rhagnodi gwrthficrobaidd ac integreiddio cyngor ar roi'r gorau i smygu, mae archwiliadau clinigol eraill, megis atal a rheoli heintiau (er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05) ac archwiliadau pelydr-X (er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio 2017 a Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017) yn hanfodol er mwyn adolygu arferion cyfredol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau arferion gorau a gofynion deddfwriaeth. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a nodwyd gennym yr oedd angen eu gwneud ar unwaith a'r camau unioni a gymerwyd yn [Atodiad B](#).

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data a rheoli cofnodion ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig ac roedd mynediad heb awdurdod yn cael ei atal drwy gyfrinair. Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Cadw cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion saith claf. Gwelsom fod rhai rhannau o gofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau proffesiynol. Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol y mae angen eu gwella er mwyn hybu llesiant a diogelwch cleifion yn llawn:

- Dylid rhoi cynlluniau triniaeth ysgrifenedig i gleifion a chadw copi yng nghofnod y claf
- Rhaid cofnodi asesiadau risg o ganser y geg bob amser
- Rhaid cofnodi'r cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X a'r graddau cysylltiedig bob amser
- Rhaid cymryd radiograffau priodol yn unol â'r gofynion clinigol a rhaid i ganfyddiadau clinigol radiograffau gael eu cofnodi bob amser.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi'r gofal gorau i gleifion. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, dim ond dau gyflogai llawn amser, sef y rheolwr cofrestredig (y prif ddeintydd) a derbynnydd, oedd gan y practis. Roedd y diffyg staff ychwanegol yn golygu ei bod yn heriol i'r rheolwr cofrestredig roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn amlwg o ystyried y ffaith nad oedd prosesau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau clinigol. Amlinellodd y rheolwr cofrestredig y cynlluniau a oedd ar waith i recriwtio staff ychwanegol ac mae'n hanfodol sicrhau y gall unrhyw aelod parhaol newydd o staff ymgymryd â chyfrifoldeb dros rai o'r gofynion busnes sy'n angenrheidiol i barhau i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da.

Gwelsom fod nifer o bolisiau cyfredol ar waith i helpu'r staff i ddiwallu anghenion unigol cleifion a sicrhau eu lles.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Y Gweithlu

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogaeth a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a /neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom fod rhaglen sefydlu ar waith ar gyfer aelodau parhaol newydd o staff, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol yn ogystal â chymwyseddau clinigol. Oherwydd y ddibyniaeth ar hyn o bryd ar nyrsys deintyddol asiantaeth, awgrymwyd i'r rheolwr cofrestredig y gellid cyflwyno rhestr wirio sefydlu i staff asiantaeth newydd ac y gellid gofyn i'r nyrsys asiantaeth ei llofnodi ar ôl ei chwblhau er mwyn dangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau yn ystod eu cyfnod yn y practis.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Newport Road Dental Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 16 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod gan bob aelod o'r staff hyfforddiant, sgiliau a gwybodaeth gyfredol am Gynnal Bywyd Sylfaenol cyn gynted â phosibl.	31(3a)	Gweithredwyd ar hyn ar ddiwrnod yr arolygiad ar gyfer yr unig aelod presennol o'r staff Javkhlân Townsend ac fe'i cyflwynwyd. Llwyddodd Shahrzad Yeganeh hefyd i ddod o hyd i'w thystysgrif a oedd wedi mynd ar goll yn y system mewn perthynas â chyrsgiau Max a chyflwynwyd copi ohoni hefyd. Cynhaliwyd dadebru cardio-anadlol ar 7/6/22 yn y practis.	Shahrzad Yeganeh	Wedi'i gwblhau
Rhaid cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol cyn gynted â	16(1a), 16(1b)	Mae dau archwiliad clinigol, sef MPWIP a'r Cynllun Gwên, a ddechreuwyd ym mis	Shahrzad	Parhaus

<p>phosibl.Yna, rhaid llunio amserlen o archwiliadau clinigol rheolaidd fel rhan o raglen o drefniadau llywodraethu clinigol parhaus.</p>	<p>ac 16(2dii)</p>	<p>Chwefror 2022 a mis Mawrth 2022 gyda chyn-aelodau o'r staff, wedi aildddechrau bellach ar ôl sgwrs gyda Martine Cuddihy ar 24 Tachwedd i gadarnhau lle roeddem arni. Mae hylenydd a nyrs ddeintyddol newydd wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar a'n bwriad yw y bydd yr archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal fel rhan o'u dyletswyddau parhaus i'w rheoli a'u cyflawni gan bob aelod clinigol o'r staff yn y practis.</p>	<p>Yeganeh</p>	
<p>Rhaid rhoi tystiolaeth i AGIC fod yr eitemau coll wedi cael eu harchebu a bod eitemau newydd wedi cael eu prynu yn lle'r eitemau heb ddyddiadau defnyddio, neu'r eitemau yr oedd y dyddiadau defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio.Yna, rhaid llunio rhestr wirio wythnosol er mwyn sicrhau bod cyflenwad llawn o gyfarpar brys, ei fod mewn cyflwr da ac nad yw'r dyddiadau defnyddio ar gyfer yr eitemau unigol wedi mynd heibio.</p>	<p>13(2a) a 31(3b)</p>	<p>Archebwyd yr holl gynhyrchion mewn perthynas â'r cyfarpar dadebru â dyddiad defnyddio a oedd wedi mynd heibio ar ddiwrnod yr arolygiad ac fe'u derbyniwyd / cofnodwyd drannoeth. Mae copi o'r cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru wedi'u diweddarau ar gael ar ffurf tabl ac mae'n cael ei wirio bob dydd gan y clinigydd arweiniol.</p>	<p>Shahrazad Yeganeh</p>	<p>Wedi'i gwblhau ar 25 Tachwedd ac yn cael ei wneud bob dydd</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Shahrzad Yeganeh

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 29 Tachwedd 2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Newport Road Dental Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 16 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i wybodaeth hybu iechyd y geg gael ei rhoi i gleifion pan fydd angen gwneud hynny.	Diogelu a Gwella Iechyd	Mae taflenni ar iechyd y geg ar gael yn y dderbynfa a gall cleifion fynd ag un o'r taflenni gyda nhw neu gellir rhoi taflen iddynt ar gais / lle rydym yn teimlo bod angen i'r claf gael taflen.	Shahrazad Yeganeh	Wedi'i gwblhau
Rhaid i brosesau cynllunio triniaethau ac opsiynau triniaethau i gleifion gael eu cofnodi bob amser yng nghofnodion y cleifion.	Gwybodaeth i gleifion Cadw cofnodion	Yn hanesyddol, roedd cynlluniau triniaeth yn cael eu trafod â chleifion ar ddiwrnod yr archwiliad, roeddent yn cydsynio iddynt ac yn cael copi dros e-bost. Ers 10 Ionawr 2023, mae Exact (SOE) wedi ychwanegu'r opsiwn 'Cynllun Triniaeth' at ein Clinipad. Mae'r claf bellach yn darllen hyn ar ddiwrnod ei apwyntiad	Shahrazad Yeganeh	10 Ionawr 2023 - Yn barhaus

		(Archwiliad), ac yn ei lofnodi, sy'n mynd yn uniongyrchol i'w gofnod ar y system SOE. Caiff copi ei argraffu a'i lofnodi a'i roi i'r claf.		
Dylai'r practis fyfyrion ar yr adborth gan gleifion a'i gwneud yn haws i gleifion gael apwyntiadau.	Mynediad amserol	Mae adborth cleifion yn bwysig i ni ac rydym yn croesawu adborth (fel yr amlinellir yn 'Natganiad o Ddiben' ein practis - Rydym wedi cwblhau nifer o arolygon cleifion yn ddiweddar ar ran AGIC, yr oedd pob un ohonynt yn gadarnhaol o safbwynt profiad y claf. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu unrhyw sylwadau ynglŷn â threfnu apwyntiadau. Yn ogystal â hyn, rydym yn anfon nodyn atgoffa at gleifion cyn diwrnod eu hapwyntiad. Os na fydd claf yn gallu dod, byddwn yn gwneud ein gorau i aildrefnu apwyntiad yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei weld mewn modd amserol, ar ddyddiad pan gallwn gynnig apwyntiad.	Shahrzad Yeganeh	Wedi'i gwblhau ac yn parhau
Rhaid i'r practis gyflwyno proses fwy strwythuredig i fynd ati'n weithredol i geisio barn cleifion fel dosbarthu holiaduron neu ffurflenni	Gwrando a dysgu o adborth	Fel y soniwyd uchod, cynhaliwyd ymarfer ym mis Rhagfyr 2022 i ofyn i gleifion gwblhau arolwg boddhad ar ran AGIC. Ers hynny, rydym wedi rhoi Arolwg Boddhad Cleifion ar waith, sy'n rhan o 'Daith'	Shahrzad Yeganeh	Ionawr 2023 ac yn barhaus ar gyfer allbynnau / gwelliannau

adborth.		<p>cleifion.</p> <p>Mae proses bellach ar waith lle y gofynnir i'r cleifion gwblhau arolwg (yn ddienw). Yna caiff y rhain eu rhoi mewn blwch yn yr ardal aros i gleifion a'u hadolygu ar y dydd Llun cyntaf a'r trydydd ddydd Llun bob mis.</p> <p>Wedyn, caiff yr arolygon eu cofnodi a byddwn yn gweithredu'n briodol mewn ymateb iddynt.</p>		
Ni ddylid storio llaeth yn yr un oergell â deunyddiau clinigol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Nid yw llaeth yn cael ei storio yn yr un oergell â deunyddiau clinigol mwyach. Mae'r holl ddeunyddiau clinigol yn cael eu storio mewn oergell ar wahân bellach nad yw yn y gegin.</p>	Shahrzad Yeganeh	Rhagfyr 2022
Dylai'r gegin gael ei glanhau'n drylwyr a dylid cael gwared ar unrhyw eitemau ac offer storio diangen.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Rydym wedi cyflogi glanhäwraig i ddod i mewn bob dydd Gwener ac un o'i dyletswyddau yw sicrhau bod cegin y staff yn cael ei glanhau a chael gwared ar eitemau diangen.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai cyfarpar diogelu personol yw llawer o'r 'eitemau diangen' ac rydym wedi siarad â chartref nyrsio lleol sydd wedi croesawu'r cynnig i gael y cyfarpar ychwanegol.</p>	Shahrzad Yeganeh	Ionawr 2023

		Rydym hefyd wedi hysbysu'r BILL nad oes angen rhagor o gyfarpar diogelu personol yn y practis ar hyn o bryd.		
Rhaid i gyfarpar a deunyddiau glanhau gael eu storio mewn cwpwrdd penodol ar wahân y gellir ei gloi.	Atal a rheoli heintiau	Mae'r holl gynhyrchion glanhau peryglus (COSSH) bellach yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo yn yr ystafell ddihalogi.	Shahrzad Yeganeh	Rhagfyr 2022
Rhaid ychwanegu'r dasg o gasglu a gwaredu gypswm at y contract gwastraff cyfredol.	Atal a rheoli heintiau	Mae gennym gynwysyddion gypswm ar wahân sy'n rhan o'n casgliad gwastraff clinigol sydd bellach ar waith (a roddwyd ar waith ar ddiwrnod arolygiad AGIC). Initial yw'r contractwr.	Shahrzad Yeganeh	Tachwedd 2022
Rhaid trefnu contract â'r cyngor lleol i waredu gwastraff cartref nad yw'n beryglus.	Atal a rheoli heintiau	Mae'r contract â'r cyngor lleol ar waith i gasglu ein holl wastraff (Cyffredinol) anghlinigol bob pythefnos (a roddwyd ar waith ar unwaith yn dilyn arolygiad AGIC). Waste Management United yw'r contractwr.	Shahrzad Yeganeh	Tachwedd 2022
Rhaid edrych ar yr eitemau clinigol sy'n cael eu storio yn yr oergell yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw eu dyddiad defnyddio wedi	Rheoli meddyginiaethau	Y Nyrs Arwain yn y practis sy'n gyfrifol am edrych ar yr holl eitemau clinigol bob mis ac mae'n ymwybodol bod angen hysbysu SY am unrhyw eitemau y mae eu dyddiadau defnyddio ar fin mynd heibio	Shahrzad Yeganeh	Ionawr 2023

mynd heibio a'u bod yn effeithiol ac yn ddiogel i'w defnyddio.		neu y mae angen i ni eu harchebu.		
Rhaid i Ddeintyddfa 2 gael ei thacluso, ei threfnu a'i hailgyflenwi ag offer deintyddol priodol a digonol cyn cael ei defnyddio i drin cleifion.	Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r ddeintyddfa hon wedi cael ei thacluso a bydd yn cael ei hailgyflenwi ag offer deintyddol priodol a digonol cyn cael ei defnyddio fel deintyddfa weithredol.	Shahrzad Yeganeh	Ionawr 2023
Rhaid rhoi cynlluniau triniaeth ysgrifenedig i gleifion a chadw copi yng nghofnod y claf.	Cadw cofnodion	Fel uchod - Gwybodaeth i gleifion. (Pwynt 2)	Shahrzad Yeganeh	10 Ionawr 2023
Rhaid cofnodi asesiadau risg o ganser y geg yng nghofnodion y cleifion bob amser.	Cadw cofnodion	Mae hyn yn rhan o'r templed archwilio clinigol (o fewn SOE - Aseiad Risg) ac mae'n cael ei gwblhau yn ystod pob archwiliad gan ein Deintydd / Hylenydd / Therapydd.	Shahrzad Yeganeh	Mis Tachwedd ac yn barhaus
Rhaid cofnodi'r cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X a'r graddau cysylltiedig yng nghofnodion y cleifion bob amser.	Cadw cofnodion	Nodir y cyfiawnhad dros gynnal a chofnodi archwiliadau pelydr-X yn y nodiadau clinigol yng nghofnodion y cleifion bob tro (SOE).	Shahrzad Yeganeh	Mis Tachwedd ac yn barhaus

<p>Rhaid i radiograffau priodol gael eu cynnal yn ôl yr angen clinigol a rhaid i ganfyddiadau clinigol radiograffau gael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion bob amser.</p>	<p>Cadw cofnodion</p>	<p>Cyn ymgymryd ag unrhyw driniaethau a lle mae angen pelydr-X cyn rhoi triniaeth a gynigir (sy'n rhan o Gynllun Triniaeth y claf) rydym yn sicrhau ein bod yn tynnu llun (pelydr-X) llawn, yn ei lanlwytho i ffeil y claf ac yn sicrhau ei fod yn dangos yn glir pa ran/pa rannau sydd i'w thrin/i'w trin.</p>	<p>Shahrzad Yeganeh</p>	<p>Mis Tachwedd ac yn barhaus</p>
---	-----------------------	---	-------------------------	-----------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Shahrzad Yeganeh

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 12 Ionawr 2023